## Cydadolygiadau – trefniadau rheolaeth weithredol

Ar sail pwyso a mesur ar ôl blwyddyn gyntaf y rhaglen newydd, addawodd Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru wneud newidiadau mewn sawl maes, gan gynnwys gwelliannau i'r trefniadau mewnol ar gyfer trefnu a rheoli'r rhaglen gydadolygu.

Cytunwyd y byddai Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn:

- ffurfioli ac yn dogfennu'n eglurach y trefniant partneriaeth rhwng Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru mewn cytundeb newydd;
- neilltuo ill dau un aelod o'u staff i swyddogaeth rheoli'r rhaglen, er mwyn gwella rheolaeth weithredol a chysondeb.

Gosodwyd copi o'r cytundeb partneriaeth newydd, wedi'i lofnodi gan Brif Arolygydd Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Ebrill 11 2006, ar y wefan cydadolygiadau (www.joint-reviews.gov.uk).

Pat Vogt (Dirprwy Brif Arolygydd Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru) a Paul Dimblebee (Partner, Swyddfa Archwilio Cymru) yw'r Rheolwyr Arweiniol ar gyfer y rhaglen, gan rannu'r cyfrifoldeb gweithredol am gyflawni cydadolygiadau. Phil Evans fydd bellach yn arwain ar ran Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru mewn cynorthwyo i sicrhau rheoli gweithredol gwell ar y rhaglen gydadolygu a bydd Val Connors yn cyflawni'r un swyddogaeth ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru. Rhestrir eu tasgau allweddol isod.

- Cynorthwyo'r Rheolwyr Arweiniol gyda rheoli a chefnogi'r rhaglen gydadolygu.
- Rheoli'r prosiectau a'r prosesau cydadolygu, o dan arweiniad y Rheolwyr Arweiniol.

- Sicrhau y cyflawnir gwahanol swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar lefel weithredol yn unol â'r cytundeb partneriaeth.
- Trefnu sicrhau ansawdd a monitro mewn perthynas â chyflawni pob adolygiad awdurdod lleol.
- Cydgysylltu cyfraniad y cyrff maent yn eu cynrychioli i'r rhaglen gydadolygu.
- Datblygu a chynnal y fethodoleg ar gyfer cydadolygiadau, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol.
- Cymryd rhan mewn cydadolygiadau fel adolygydd arweiniol neu adolygydd.
- Cynghori staff o'r ddau gorff ynghylch cymryd rhan mewn cydadolygiadau a'u cyfraniad iddynt, gan sicrhau eu bod wedi'u briffio a'u hyfforddi'n briodol ar gyfer cyflawni eu gwahanol swyddogaethau.
- Cyflawni dyletswyddau ynglŷn â chynllunio'r rhaglen, gan sicrhau bod y rhaglen yn gyffredinol a'r adolygiadau unigol o'i mewn yn gweithredu'n briodol.
- Sicrhau cofnodi a rhannu'r hyn a ddysgir o bob adolygiad ac o'r rhaglen yn gyffredinol.
- Gweithio gydag arolygiaethau a chyrff rheoleiddio eraill er mwyn cyflawni cydadolygiadau a gweithgaredd cysylltiedig mewn ffordd integredig.
- Cynrychioli Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â chydadolygiadau a materion cysylltiedig gydag awdurdodau lleol a chyrff sy'n eu cynrychioli (ar lefel swyddogion ac aelodau), gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru, gyda'r cyfryngau a gyda chyrff cenedlaethol.